# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

March 2023

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello

Welcome to the Lisvane & Llanishen Reservoirs Spring Newsletter. In this newsletter you can find out about the progress we've been making on site as well as our community engagement activities that have been happening over recent months.

## Progress on the Visitor Hub

It's been a busy couple of months since we last wrote to you, and our site is starting to look very different to what it did three months ago.

Working with local contractor BECT, the superstructure of the new building has been completed and the interior work is underway. This will be the key focus for the team over the coming months, along with the formation of the new road and external finishes to the building. To check out the progress that has been made so far, scan the QR code below.

Our work is not just limited to the construction of the new building, we have also been busy working with contractors to make the site accessible for the public and creating conservation zones to protect the site's wildlife and ecology.

Our contractors Knights Brown and Harlestone have been installing our brand new fencing and footpaths around the reservoirs. The majority of this work is completed, but the team will be returning later in the year to carry out some further work. We'll update the In Your Area section of our website – **dwrcymru.com/inyourarea** – closer to the time.

Thanks to the Welsh Government ENRaW grant, the footpaths will enable the public to enjoy circular walks around the reservoirs, whilst protecting the embankments that have been designated as a SSSI for waxcap fungi.

All of the work on site is being carried out under the supervision of an Ecological Clerk of Works to ensure minimal disruption to the local environment and the site's ecology.

If you would like regular updates about our work visit **dwrcymru.com/inyourarea** and click the follow button at the bottom of the page. Here, you can also find information about our contractors and their working hours.


Photo taken 14th February 2023

## Opening the new Visitor Hub

Our teams are currently working hard to complete the visitors hub as soon as possible. However, weather challenges and supply chain issues during the winter months have posed some challenges and we still have more work to do before we can officially open the site.

We are now looking at opening the centre during the summer, and our team working on the visitor hub will be working most Saturday mornings, between 8am and 1pm, so that we can achieve this. Please keep an eye on our website and social media channels for more updates as our work progresses.

## Welcome to the team

To help us prepare for the opening, we have been busy recruiting and training members of the team who will be based at the new Visitor Hub.
n October we welcomed Jack Bailey, Activities Manager, who joined us from Cardiff White Water Rafting Centre; and Paul Mickleburgh who has recently joined us a Catering Manager.


Jack Bailey


Paul Mickleburgh

We are extremely grateful to Cardiff and Vale College for allowing us to use their excellent training kitchens at The Classroom for the practical assessment as part of our Catering Manager interviews. Also to the academic team and catering and hospitality students who helped with the menu design, implementation, and assessment of the task on the day.

James Griffith, Visitor Attraction Manager, said: "Students Harry and Jasmine were extremely professional and gave insightful and honest feedback, which was invaluable in informing our decision-making."

We are very much looking forward to working with Cardiff & the Vale College in the future.

Scan to see the time lapse video of our work in progress.

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# LISVANE AND LLANISHEN RESERVOIRS

## Community Fund

We know our work can cause disruption in the communities we are working in, and we want to leave them in a better place once we complete our work.

The Community Fund is a chance for communities to boost fundraising efforts for good causes in their area. If you live in an area where work is taking place – and you're fundraising for projects to benefit the community – you could receive funding from Welsh Water up to a value of £1,000.

For more information and details of how to apply, visit **dwrcymru.com/communityfund**

## In memory of and with thanks to Paul Davies

We were saddened to hear Paul Davies, Chair of Friends of Cardiff Reservoirs, passed away unexpectedly in December.

Paul will be greatly missed, he was not only dedicated to the Friends group but also actively involved in many other groups across Cardiff.

His passion for conservation and the environment was evident in the projects he took part in. Paul has certainly left a legacy he can be proud of; creating the first dry stone wall at the reservoirs site and donating a bird box which has been placed in the education area at the reservoirs during National Bird Box Week.



Paul's dedication and enthusiasm to establish the Friends of Cardiff Reservoirs will always be greatly appreciated. His contribution has not only supported Cardiff's biodiversity but will also enable future generations to learn about and enjoy nature.

## Ecology Surveys

Our annual grassland survey took place between October and December during the fruiting season. Despite the dry summer it was another good year for fungi recording a total of 27 species of waxcap. We would like to thank volunteers from Glamorgan Fungus Group, Friends of Cardiff Reservoirs and NRW who accompanied our ecologist helping to spot the many species.

Not only did the waxcap fungi help save the reservoirs from development, but they play a crucial role in supporting Cardiff's biodiversity. Fungi balances ecosystems, which helps to breakdown dead plants and animals which in turn provides nutrients to other plants. In return, this helps store carbon within the soil which would otherwise be released as carbon dioxide into the atmosphere. .

A big thank you to Dan, a volunteer with the British Trust of Ornithology, who has been attending site on a monthly basis to carry out the Wetland Bird Survey. The survey work that Dan carries out helps us to monitor the internationally important wintering waterbirds that visit and make use of Lisvane Reservoir.

## Community Engagement and Volunteering

We have had a busy autumn and winter welcoming community groups and volunteers to support us with ecological surveys and conservation management activities.

Thanks to the Welsh Government and National Lottery Heritage Community Woodlands fund, we have been running a series of volunteering training programmes and woodland management sessions at the reservoirs.

Friends of Cardiff Reservoirs volunteers attended a two-day training session with Dry Stone Wall Association in December. With thanks to Rhodri from South and West Wales Wildlife Trust who also attended to lend a hand to complete the second wall at the reservoirs. Another training session is being planned in March to create a third wall using the excess pitching stone from the reservoir restoration. Each wall will be built in a different style, providing an additional hibernation area for the Grass Snake population as well as encourage amphibians and invertebrates supporting the site's wildlife and biodiversity.

Weekly woodland management sessions are being run with our rangers. Volunteers have supported the preparation of stone for the dry-stone wall training, sowing of the native bluebell seeds around the newly created ponds in the Wildlife Haven, as well as helping to create nature trails and clearance within the education area to allow for natural regeneration to the ground flora.

A big thank you to everyone who has been supporting us to enhance and rejuvenate the woodlands.

If you are interested in volunteering at the reservoirs, please contact the Friends of Cardiff Reservoirs via their website: **friendsofcardiffreservoirs.org**

## Blossom Watch with National Trust Cymru

In January Julie Morgan MS joined members of staff from National Trust Cymru, Welsh Water, Friends of Cardiff Reservoirs, Reservoir Action Group and Anna McMorrin MP to plant a blossom tree at Lisvane and Llanishen reservoirs in Cardiff, to bring more people closer to nature on their doorstep.

The planting is part of National Trust Cymru's #GwleddYGwanwyn #BlossomWatch campaign and commitment to provide opportunities for more people to connect with nature, beauty and history, wherever they are in Wales. Julie chose Llanishen and Lisvane reservoirs as the location for the blossom tree in Cardiff North to mark her long-standing involvement in helping to save the reservoirs from development. We look forward to welcoming Julie back to see the tree in full blossom.



CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd Friends of Cardiff Reservoirs

Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 | dwrcymru.com

# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

Mawrth 2023

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo

Croeso i Gylchlythyr y Gwanwyn Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien. Yn y cylchlythyr hwn, gallwch ddysgu am y cynnydd rydym wedi bod yn ei wneud ar y safle yn ogystal â'n gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned sydd wedi bod yn mynd rhagddynt dros y misoedd diwethaf.

## Datblygiad y Ganolfan Ymwelwyr

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur ers i ni ysgrifennu atoch ddiwethaf, ac mae ein safle yn dechrau edrych yn wahanol iawn i sut roedd pethau dri mis yn ôl.

Gan weithio gyda'r contractwr lleol, BECT, mae uwchstrwythur yr adeilad newydd wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith mewnol yn mynd rhagddo. Dyma fydd prif ffocws y tîm dros y misoedd nesaf, ynghyd ag adeiladu'r ffordd newydd a gorffeniadau allanol yr adeilad. I weld y cynnydd a wnaed hyd yma, sganiwch y cod QR defnyddiol hwn.

Nid yw ein gwaith wedi'i gyfyngu i godi'r adeilad newydd yn unig, rydym hefyd wedi bod yn brysur yn gweithio gyda chontractwyr i wneud y safle yn hygyrch i'r cyhoedd ac yn creu ardaloedd cadwraeth i amddiffyn bywyd gwyllt ac ecoleg y safle.

Mae ein contractwyr, Knights Brown a Harlestone, wedi bod yn gosod ein ffensys a'n llwybrau troed newydd sbon o gwmpas y cronfeydd dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, ond bydd y tîm yn dychwelyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i wneud gwaith pellach. Byddwn yn diweddaru'r adran 'Yn Eich Ardal' ar ein gwefan – **dwrcymru.com/yneichardal** – yn agosach at yr amser.

O ganlyniad i Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru, bydd y llwybrau troed yn galluogi'r cyhoedd i fwynhau teithiau cerdded cylchol o gwmpas y cronfeydd dŵr, gan amddiffyn yr argloddiau a ddynodwyd yn SoDdGA ar gyfer ffwng capiau cwyr.

Mae'r holl waith ar y safle yn cael ei wneud dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol er mwyn sicrhau ein bod yn tarfu gyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd lleol ac ecoleg y safle.

Os hoffech gael diweddariadau rheolaidd ar ein gwaith, ewch i **dwrcymru.com/yneichardal** a chliciwch ar y botwm dilyn ar waelod y dudalen. Yma, gallwch hefyd gael gwybodaeth am ein contractwyr a'u horiau gwaith.



Tynnwyd y llun ar 14 Chwefror 2023

## Agor y Ganolfan Ymwelwyr newydd

Mae ein timau yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i gwblhau'r Ganolfan Ymwelwyr cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae'r tywydd a phroblemau o ran y gadwyn gyflenwi dros y gaeaf wedi achosi heriau ac mae gennym fwy o waith i'w wneud o hyd cyn y gallwn agor y safle yn swyddogol. Rydym nawr yn bwriadu agor y ganolfan yn ystod yr haf, a bydd ein tîm sy'n gweithio ar y Ganolfan Ymwelwyr yn gweithio bob bore dydd Sadwrn bron, rhwng 8am ac 1pm, fel y gallwn gyflawni hyn. Cadwch lygad ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael rhagor o ddiweddariadau wrth i'n gwaith fynd rhagddo.

## Croeso i'r tîm

I'n helpu i baratoi i agor y safle, rydym wedi bod yn brysur yn recriwtio ac yn hyfforddi aelodau o'r tîm a fydd yn gweithio yn y Ganolfan Ymwelwyr. Ym mis Hydref, gwnaethom groesawu Jack Bailey, Rheolwr Gweithgareddau, a ymunodd â ni o Ganolfan Dŵr Gwyn Caerdydd ac mae Paul Mickleburgh wedi ymuno â ni'n ddiweddar fel y Rheolwr Arlwyo.



Jack Bailey



Paul Mickleburgh

Rydym yn hynod ddiolchgar i Goleg Caerdydd a'r Fro am ganiatáu i ni ddefnyddio eu ceginau hyfforddiant ardderchog yn Y Dosbarth ar gyfer yr asesiad ymarferol fel rhan o'n cyfweliadau ar gyfer swydd y Rheolwr Arlwyo. Hefyd i'r tîm academaidd a'r myfyrwyr arlwyo a lletygarwch a fu'n helpu i ddylunio'r fwydlen, gweithredu ac asesu'r dasg ar y diwrnod.

Dywedodd James Griffith, Rheolwr yr Atyniad i Ymwelwyr: "Roedd y myfyrwyr, Harry a Jasmine, yn broffesiynol dros ben a chawsom adborth deallus a gonest ganddynt, a oedd yn werthfawr tu hwnt wrth i ni wneud ein penderfyniad."

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro yn y dyfodol.

Sganiwch i weld fideo treigl amser o'r gwaith yn datblygu.

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

## Cronfa Gymunedol

Gwyddom y gall ein gwaith darfu ar y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, ac rydym am eu gadael mewn sefyllfa well unwaith y byddwn wedi cwblhau ein gwaith.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gyfle i gymunedau roi hwb i'w hymdrechion i godi arian at achosion da yn eu hardal. Os ydych yn byw mewn ardal lle mae gwaith yn mynd rhagddo ac rydych yn codi arian ar gyfer prosiectau er budd y gymuned, gallech gael arian gan Dŵr Cymru hyd at £1,000.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cais, ewch i **dwrcymru.com/cronfa-gymunedol**

## Er cof am Paul Davies ac i ddiolch iddo



Roeddem yn drist o glywed am farwolaeth annisgwyl Paul Davies, Cadeirydd Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, ym mis Rhagfyr.

Bydd colled enfawr ar ôl Paul. Roedd yn ymroddedig i grŵp y Cyfeillion ond hefyd yn aelod gweithgar o lawer o grwpiau eraill ar draws Caerdydd.

Roedd ei frwdfrydedd dros gadwraeth a'r amgylchedd yn amlwg yn y prosiectau y cymerodd ran ynddynt. Mae Paul yn sicr wedi gadael etifeddiaeth y gall fod yn falch ohoni; creu'r wal sych gyntaf ar safle'r cronfeydd dŵr a rhoi blwch nythu a osodwyd yn ardal addysg y cronfeydd dŵr yn ystod Wythnos Genedlaethol Blychau Nythu.

Gwerthfawrogir ymroddiad a brwdfrydedd Paul i sefydlu Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd am byth. Mae ei gyfraniad wedi cefnogi bioamrywiaeth Caerdydd, a bydd hefyd yn galluogi cenedlaethau'r dyfodol i ddysgu am fyd natur a'i fwynhau.

## Arolygon Ecoleg

Cynhaliwyd ein harolwg glaswelltir blynyddol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr yn ystod y tymor ffrwytho. Er gwaethaf yr haf sych, roedd yn flwyddyn dda arall i ffyngau, a chofnodwyd cyfanswm o 27 rhywogaeth o'r ffwng capiau cwyr. Hoffem ddiolch i wirfoddolwyr o Grŵp Ffwng Morgannwg, Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd a Cyfoeth Naturiol Cymru a ddaeth gyda'n hecolegydd, gan helpu i nodi llawer o'r rhywogaethau.

Yn ogystal â helpu i atal safle'r cronfeydd dŵr rhag cael ei ddatblygu, mae'r ffwng capiau cwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi bioamrywiaeth Caerdydd. Mae ffyngau yn cydbwyso ecosystemau, gan dorri planhigion ac anifeiliaid marw i lawr a darparu maethynnau i blanhigion ac, yn gyfnewid, mae'n storio carbon o'r planhigyn yn y pridd, gan ei atal rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer fel carbon deuocsid.

Diolch yn fawr i Dan, gwirfoddolwr gydag Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, sydd wedi bod yn dod i'r safle bob mis i gynnal yr Arolwg o Adar Gwlyptiroedd. Mae'r gwaith arolwg a wneir gan Dan yn ein helpu i fonitro adar y dŵr sy'n gaeafu ac sydd o bwys rhyngwladol sy'n ymweld â Chronfa Ddŵr Llys-faen ac yn ei defnyddio.

## Ymgysylltu â'r Gymuned a Gwirfoddoli

Rydym wedi bod yn brysur drwy'r hydref a'r gaeaf yn croesawu grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i'n helpu gydag arolygon ecolegol a gweithgareddau rheoli cadwraeth.

Diolch i Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Coetiroedd Cymunedol, rydym wedi bod yn cynnal cyfres o raglenni hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a sesiynau rheoli coetiroedd ar safle'r cronfeydd dŵr.

Mynychodd gwirfoddolwyr Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd sesiwn hyfforddi deuddydd gyda'r Gymdeithas Waliau Sychion ym mis Rhagfyr. Gyda diolch i Rhodri o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a oedd hefyd yn bresennol i helpu i gwblhau'r ail wal wrth y cronfeydd dŵr. Mae sesiwn hyfforddi arall yn cael ei chynllunio ar gyfer mis Mawrth i greu trydedd wal gan ddefnyddio'r cerrig palmantu a oedd dros ben o waith adfer y gronfa ddŵr. Caiff pob wal ei hadeiladu mewn arddull wahanol, gan ddarparu ardal gaeafgysgu ychwanegol ar gyfer poblogaeth Neidr y Gwair yn ogystal ag annog amffibiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth y safle.

Mae sesiynau rheoli coetir wythnosol yn cael eu cynnal gyda'n ceidwaid. Mae gwirfoddolwyr wedi cefnogi'r gwaith o baratoi cerrig ar gyfer yr hyfforddiant waliau sychion, hau hadau'r bwtias y gog brodorol o gwmpas y pyllau newydd yn yr Hafan Bywyd Gwyllt, yn ogystal â helpu i greu llwybrau natur a chlirio'r ardal addysg er mwyn adfywio'r fflora daear yn naturiol. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod yn ein helpu i wella ac adfer y coetiroedd.

Os oes diddordeb gennych mewn gwirfoddoli ar safle'r cronfeydd dŵr, cysylltwch â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd drwy eu gwefan: friendsofcardiffreservoirs.org

## Gwledd y Gwanwyn gydag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Ym mis Ionawr, ymunodd Julie Morgan Aelod o'r Senedd ag aelodau o staff Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Dŵr Cymru, Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, Grŵp Gweithredu'r Gronfa Ddŵr ac Anna McMorrin Aelod Seneddol, i blannu coeden yng nghronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien yng Nghaerdydd, er mwyn dod â mwy o bobl yn agosach at natur ar garreg eu drws.

Mae hyn yn rhan o ymgyrch #GwleddYGwanwyn #BlossomWatch Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a'i hymrwymiad i roi cyfle i ragor o bobl gysylltu â byd natur, harddwch a hanes ble bynnag y maent yng Nghymru. Dewisodd Julie gronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen fel lleoliad y goeden yng Ngogledd Caerdydd er mwyn nodi ei hymrwymiad hirsefydlog i helpu i achub y cronfeydd dŵr rhag cael eu datblygu. Edrychwn ymlaen at groesawu Julie pan fydd y goeden yn llawn blodau.



CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd Friends of Cardiff Reservoirs